Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-29-17 PTN1

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CS/0694/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

14 Tachwedd 2017

Annwyl Simon

BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU) - MEMORANDWM ESBONIADOL /ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL DIWYGIEDIG

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ynghylch y newidiadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) yn dilyn Cam 2.

Mae swyddogion wedi ystyried y gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod Cam 2 a daethant i'r casgliad nad ydynt yn newid yr amcangyfrifon costau a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Felly ni fydd yr amcangyfrifon o gostau cysylltu â thenantiaid i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid.

Ni fydd y fethodoleg a gyflwynwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer amcangyfrif effaith ariannol y Bil ar Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid chwaith. Fodd bynnag, diweddarwyd y model er mwyn adlewyrchu: yr ystadegau diweddaraf ynghylch gwerthiant eiddo yn y sector cymdeithasol yn 2016-17; gwerth marchnadol yr eiddo ar gyfartaledd; a'r disgownt a ddarparwyd ar gyfartaledd o dan yr Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael. Cyhoeddwyd y data hyn ym mis Gorffennaf 2017. Erbyn hyn, mae'r model hefyd yn cynnwys data 2015-16 (y diweddaraf sydd ar gael) ynghylch costau atgyweirio a chynnal a chadw a chostau rheoli Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Yn olaf, diwygiwyd y model i adlewyrchu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cymeradwyo tri ataliad gwirfoddol ychwanegol (yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chaerdydd) ers cyflwyno'r Bil yn y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r gwaith ail-fodelu hwn wedi arwain at dynhau ychydig ar yr amrywiaeth yn yr amcangyfrif o'r effaith ar gyllid Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o -£69.1 miliwn i +£54.9 miliwn. Fel y byddwch yn cofio, roedd yr amrywiaeth eang hwn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch nifer a phriodoleddau'r eiddo a fyddai fel arall yn cael ei werthu o dan yr Hawl i Brynu yn y senario waelodlin.

Yn gywir

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration